Hawdd ei Ddeall

# Beth sy'n bwysig i mi

## Asesu a chynllunio gofal o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)



**Canllaw hawdd ei ddeall i bobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd**

**Hydref 2018**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hwn yn lyfryn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r geiriau yma yn cael eu defnyddio eto mae e mewn ysgrifen glas normal. Gallwch weld beth maen nhw'n feddwl yn y **Geiriau anodd** ar dudalen 36.

I gael rhagor o gopïau o'r llyfryn yma cysylltwch os gwelwch yn dda gyda **Anabledd Dysgu Cymru.**

E-bost: enquiries@ldw.org.uk

Ffôn: 029 20681160

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

Tudalen

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma....................................................................2**

**Y daflen yma................................................................................................4**

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)..........................6**

**Beth i'w wneud os ydych chi angen gofal a chefnogaeth.......................8**

**Eich asesiad...............................................................................................11**

Am beth fyddan nhw'n siarad gyda chi..............................................14

Pa help yr ydych yn gallu ei gael gan eich awdurdod lleol.............20

Canlyniad eich asesiad........................................................................22

Os nad ydych yn hapus gyda chanlyniadau eich asesiad.............24

**Eich Cynllun Gofal a Chefnogaeth.........................................................25**

Edrych ar eich Cynllun Gofal a Chefnogaeth.....................................30

**Talu am eich gofal a'ch cefnogaeth........................................................33**

**Beth arall sydd yn gallu eich helpu?........................................................34**

Rhagor o wybodaeth...........................................................................34

**Geiriau anodd.............................................................................................36**

# Y daflen yma




Mae **Asesu a chynllunio gofal** wedi newid.

**Asesu a chynllunio gofal** ydy beth rydych chi'n drafod gyda'ch **awdurdod lleol** i weld os ydych chi angen gofal a chefnogaeth. A pha ofal a chefnogaeth rydych chi ei angen. A sut y byddwch chi'n ei gael e.



Yr **awdurdod lleol** ydy eich cyngor. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd, goleuadau a chasglu sbwriel.




Mae Asesu a chynllunio gofal wedi newid oherwydd y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**. Dyma ddeddf newydd a wnaeth ddechrau yn Ebrill 2016. Mae'n rhoi mwy o lais i chi i ddweud pa ofal a chefnogaeth rydych chi'n ei gael.



Fe fydd y daflen yma yn eich helpu i wybod beth ydy eich hawliau i gael gofal a chefnogaeth gan eich awdurdod lleol.




Mae'r daflen yma yn edrych ar beth ydy eich hawliau ac fe fydd yn eich helpu i wybod beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cael Asesu a chynllunio gofal.

Fe fydd y daflen yma yn dweud wrthych chi:




- Beth ydy eich hawliau chi. A beth ydy hawliau eich gofalwr



- Beth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud pan rydych chi'n dweud wrthyn nhw eich bod chi neu rhywun rydych chi'n ei adnabod angen gofal a chefnogaeth.

Mae'r wybodaeth yma wedi dod o:




- Codau Ymarfer a 'Briffiadau Technegol' Llywodraeth Cymru.





- Y Ganolfan Wybodaeth a Dysgu o'r enw "Deall y Ddeddf" sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Gofal Cymdeithasol Cymru.



Mae Anabledd Dysgu Cymru hefyd wedi ysgrifennu cwrs hyfforddi, i helpu pobl i ddysgu am Asesu a Gofal Cynllunio.

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)




Yn 2016 fe ddaeth yna ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**

Nod y Ddeddf ydy:



- Rhoi llais cryfach i chi am beth rydych chi eisiau yn eich bywyd.



- Rhoi mwy o reolaeth i chi dros eich bywyd.



- Eich helpu i gael **llesiant**.

Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n wneud.



- Cael gwasanaethau a chefnogaeth i chi mor gynnar ag sy'n bosibl i helpu eich anghenion rhag mynd yn fwy



- Cael cyrff a phobl i weithio gyda'i gilydd i gynllunio a rhedeg gwasanaethau.



Mae'r Ddeddf yn nodi ffordd newydd o ddarganfod pa ofal a chefnogaeth rydych chi ei angen. A beth mae eich gofalwyr ei angen.

# Beth i'w wneud os ydych chi angen gofal a chefnogaeth



Os ydych chi'n meddwl eich bod chi angen gofal a chefnogaeth mae angen i chi gysylltu gyda'ch Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Mae ganddyn nhw wasanaeth **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**.



Efallai eich bod eisiau gofyn i'ch teulu, gofalwr neu ffrind eich helpu.



Gallwch eu ffonio nhw neu drefnu i'w cyfarfod nhw.

Rhaid i'r gwasanaeth yma:



- gwrando arnoch chi am pa help a chefnogaeth rydych chi ei angen



- rhoi gwybodaeth i chi sydd yn hawdd ei ddeall



- dweud wrthych chi beth i'w wneud os ydych chi'n poeni am lesiant rhywun arall a sut i godi pryderon.



- dweud wrthych chi am y pethau sydd yn digwydd yn eich cymuned sydd yn gallu eich helpu. Mae hyn yn cynnwys pethau fel



- clybiau a gweithgareddau



- grwpiau cefnogi a hunangymorth



- gwirfoddoli.



Os ydych eisiau mwy na dim ond gwybodaeth, yna rhaid i'ch awdurdod lleol ddweud yn glir wrthych chi sut i ofyn am **Asesiad** o'ch anghenion.




**Asesiad** ydy pan mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill fel gwasanaethau iechyd yn siarad gyda chi ac yn edrych ar sut mae modd iddyn nhw ateb eich anghenion gofal a chefnogaeth.



Mae gennych hawl i ofyn am asesiad dim ots pa anghenion sydd gennych chi.




Os ydy'r awdurdod lleol yn meddwl efallai bod gennych anghenion gofal a chefnogaeth mae'n rhaid iddyn nhw wneud asesiad.



Mae gennych hawl hefyd i ofyn am asesiad os ydych yn ofalwr sydd angen cefnogaeth.

# Eich asesiad



Y person yn y gwasanaethau cymdeithasol fydd yn gwneud eich asesiad ydy'r **Cydgysylltydd Asesu.** Mae gennych hawl i wybod beth ydy eu henwau.



Fe fydd y **Cydgysylltydd Asesu** yn dod i'ch adnabod chi. Mae'n rhaid iddyn nhw gymryd amser i siarad gyda chi am **beth sydd yn bwysig i chi**.



Mae eich asesiad yn gallu cael ei wneud lle rydych chi'n dewis.



Yn eich asesiad rydych chi'n gallu cael help gan eich teulu, gofalwr neu ffrind.



Fe fyddwch chi yn bartner cyfartal yn eich asesiad.



Fe fydd eich **Cydgysylltydd Asesu** yn tybio mai chi ydy'r un gorau i wybod beth ydy eich anghenion a'ch llesiant.

Mae gennych hawl i gael help gan **eiriolydd**.



**Eiriolydd** ydy rhywun sydd yn siarad ar eich rhan i'ch helpu i ddweud beth rydych eisiau ei ddweud a gwneud yn siŵr bod eich anghenion yn cael eu ateb.




Efallai y byddwch yn cael mwy nag un asesiad os ydy eich anghenion yn galw am hynny. Er enghraifft, fe fydd rhywun sydd yn fyddar/dall angen person sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig i asesu eu hanghenion.



Efallai y bydd gweithwyr arbennig eraill yn cymryd rhan os ydyn nhw yn eich adnabod chi a'ch bywyd. Maen nhw'n gallu helpu gyda'ch asesiad. Efallai bod hyn yn cynnwys gweithwyr iechyd.



Os **nad** oes gennych y **galluedd** i wneud penderfyniadau eich hun, mae person sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig yn gallu cymryd rhan yn eich asesiad.



**Galluedd** ydy pan mae rhywun yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Os nad oes gan rhywun y galluedd, mae'n meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud rhai, neu'r cyfan o'u penderfyniadau eu hunain.

Rhaid gwneud yr asesiad fel eich bod yn gallu:




- cyfathrebu yn y ffordd rydych chi'n dewis




- siarad yn Gymraeg os ydych yn dewis




- deall. Efallai eich bod eisiau gwybodaeth sydd yn hawdd ei ddeall.



Gallwch wrthod asesiad os ydych eisiau.



Ond os nad ydych chi'n gallu gwneud penderfyniad neu os ydych mewn perygl o **gamdriniaeth** neu **esgeulustod** yna mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dal i allu gwneud asesiad.



**Camdriniaeth** ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg.

**Esgeulustod** ydy pan nad ydy rhywun yn gofalu amdanoch chi yn iawn nac yn eich cadw'n ddiogel.

# Am beth fyddan nhw'n siarad gyda chi



Yn eich asesiad fe fyddan nhw'n gofyn 5 peth i chi:



1. Eich **amgylchiadau personol**

> **Amgylchiadau personol** ydy ffeithiau am eich bywyd sydd yn gwneud pethau fel maen nhw.



2. Eich **canlyniadau personol**

> **Canlyniadau personol** ydy beth sydd yn bwysig i chi a beth rydych eisiau ei wneud gyda'ch bywyd.



3. Beth sydd yn eich stopio chi?



4. Beth ydy'r perygl?



5. Pa bethau rydych chi'n dda am eu gwneud.

## 1. Eich amgylchiadau personol



Fe fyddan nhw'n gofyn beth rydych chi'n gallu ei wneud eich hun. Efallai pethau fel:



- pa ofal personol rydych chi ei angen



- beth rydych chi'n gallu ei wneud eich hun yn eich cartref



- eich trefn bob dydd.



Gwnewch yn siwr eich bod yn dweud wrthyn nhw am bopeth rydych chi angen help gyda nhw.



Os ydych yn ofalwr fe fyddan nhw'n gofyn i chi pa ofal ydych chi'n gallu ei roi i'r person sydd angen cefnogaeth. Ni ddylai gwasanaethau cymdeithasol ddibynnu ar ofalwyr am ormod o ofal. Yn enwedig os ydy hynny yn effeithio ar eu llesiant.

## 2. Eich canlyniadau personol



Fe fydd eich **Cydgysylltydd Asesu** yn siarad gyda chi i weld beth sydd yn bwysig i chi. A beth rydych chi'n gallu ei wneud eich hun.



Fe fyddwch yn cael cyfle i ddweud wrthyn nhw am eich sgiliau a'ch talentau. Rydych chi'n gallu dweud wrthyn nhw pa bethau rydych chi'n eu gwneud yn dda a phethau nad ydych yn gallu eu gwneud yn dda.

Fe fyddan nhw'n gofyn i chi am:




- pa gefnogaeth sydd gennych chi nawr



- gyda beth rydych chi eisiau  cefnogaeth



- gan bwy rydych chi eisiau cefnogaeth



- pryd rydych chi eisiau cefnogaeth.




Fe fydd eich canlyniadau personol yn mynd gyda’r pethau sydd yn y **Datganiad Llesiant**. Llywodraeth Cymru sydd wedi ysgrifennu hwn.

Mae’n dweud mai llesiant ydy pethau fel:



- cael gofal a chefnogaeth da



- gwybod pa ofal a chefnogaeth rydych chi’n gallu ei gael



- bod yn iach, bwyta’n dda ac ymarfer



- cael digon o arian i fyw arno



- bod rhywun yn gwrando arnoch chi a gallu gwneud eich dewis eich hun



- cael rhywle braf i fyw



- cyfarfod pobl a gwneud pethau rydych chi’n eu mwynhau




- cael y cyfle i ddysgu pethau newydd



- cael swydd gyda chefnogaeth os ydych eisiau un



- teimlo’n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod.



## 3. Beth sydd yn eich stopio chi?

Fe fydd eich **Cydgysylltydd Asesu** yn dysgu am y pethau sydd yn eich stopio chi rhag gwneud y pethau rydych eisiau eu gwneud.



## 4. Beth ydy'r risg?

Fe fydd eich **Cydgysylltydd Asesu** yn edrych ar beth ydy'r perygl i chi neu i bobl eraill os nad ydy eich canlyniadau personol yn cael eu hateb.



Fe fyddan nhw hefyd yn edrych i weld os ydych mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

## 5. Pethau rydych chi'n dda am eu gwneud

Fe fyddan nhw eisiau gwybod am:



- eich sgiliau



- beth rydych chi'n gallu ei wneud eich hun



- pa gefnogaeth sydd gennych chi nawr.



Mae’n bwysig bod eich **Cydgysylltydd Asesu** yn gwybod bod eich anghenion a’ch cefnogaeth yn gallu newid dros amser.



Rhaid i’ch holl atebion gael eu hysgrifennu i lawr.



Fe fyddan nhw’n gofyn os ydych chi’n hapus gyda beth sydd wedi cael ei ysgrifennu i lawr.



Fe ddylai’r asesiad ddweud beth ydy eich anghenion. Fe ddylai esbonio unrhyw gyngor sydd wedi cael ei roi i chi. Ac fe ddylai ddweud sut y bydd y cyngor hwnnw yn eich helpu chi.

## Pa help yr ydych yn gallu ei gael gan eich awdurdod lleol



Fe fydd yr asesiad yn edrych i weld os ydych chi’n **gymwys** i gael cefnogaeth gan eich awdurdod lleol.



Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych hawl i gael cefnogaeth oherwydd eich bod yn ateb bob un o’r gofynion.

Os ydych yn gymwys i gael cefnogaeth rydych chi'n gallu cael help gyda:



- edrych ar ôl eich hun fel gwneud bwyd, bwyta neu ymolchi



- gallu cyfathrebu



- cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth



- cael swydd, mynd i'r ysgol neu i'r coleg



- cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden fel chwaraeon neu mynd i'r sinema



- gwneud a chadw ffrindiau a chadw mewn cysylltiad gyda'ch teulu.



- gallu gofalu am rhywun arall.

Rydych chi'n gymwys am gefnogaeth **dim ond** os




- **nad** ydych chi yn gallu cael yr help rydych chi ei angen gan ffrindiau, teulu neu gan gefnogaeth a gwasanaethau yn eich cymuned leol.




- **nad** ydych chi yn gallu ateb eich canlyniadau personol os nad ydy'r awdurdod lleol yn eich helpu chi.

## Canlyniad eich asesiad




Ar ôl i chi gael eich asesiad rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ddweud wrthych chi beth ydy'r canlyniad.




Rhaid iddyn nhw ddweud wrthych chi mewn ffordd rydych chi yn ei ddeall. Er enghraifft, hawdd ei ddeall.

**Am bob 1 o’ch anghenion** rhaid iddyn nhw ddweud wrthych chi:



1. Os ydy eich angen yn gymwys ar gyfer gofal a chefnogaeth. Os ydy eich angen yn gymwys fe fydd **Cynllun Gofal a Chefnogaeth** yn cael ei ysgrifennu. Fe fydd rhan nesaf y canllaw yma yn esbonio’r **Cynllun Gofal a Chefnogi**.




2. Os oes angen iddyn nhw wneud asesiad mwy manwl i benderfynu ydych chi angen gofal a chefnogaeth neu beidio.



3. Os oes modd i deulu, ffrindiau neu gefnogaeth a gwasanaethau yn eich cymuned leol ateb eich anghenion.



4. Os ydyn nhw’n meddwl y gallwch ateb eich anghenion eich hunan.



5. Os oes yna bethau eraill sydd yn gallu eich helpu chi gyda’ch canlyniadau personol.




6. Os ydych yn gallu cael cefnogaeth gan wasanaeth **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** yr awdurdod lleol.



7. Os **nad** ydych angen gofal a chefnogaeth.



Fe ddylai'r asesiad feddwl yn ofalus os oes modd ateb eich gofynion drwy **daliadau uniongyrchol**.




**Taliad uniongyrchol** ydy arian sydd yn cael ei roi i chi yn lle gwasanaethau. Rydych yn gallu ei ddefnyddio i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.

## Os nad ydych yn hapus gyda chanlyniadau eich asesiad



Os nad ydych yn hapus gyda chanlyniad eich asesiad mae gennych hawl i siarad gyda'ch **Cydgysylltydd Asesu**. Rydych yn gallu gofyn iddyn nhw esbonio'r penderfyniad.




Os ydych yn dal yn anhapus gyda'ch asesiad rydych yn gallu gwneud cwyn.



I wneud cwyn fe fydd angen i chi gysylltu gyda'r **Swyddog Cwynion** yn eich awdurdod lleol. Rhaid iddyn nhw roi gwybodaeth i chi am sut i wneud cwyn. Rhaid iddyn nhw ei roi i chi mewn ffordd rydych chi'n gallu ei ddeall.

Os ydych chi eisiau gwneud cwyn mae'n syniad da cael help a chyngor gan gorff eiriolaeth. Neu grŵp cynghori fel **Cyngor ar Bopeth**.

## Eich Cynllun Gofal a Chefnogaeth




Mae eich **Cynllun Gofal a Chefnogaeth** yn esbonio pa ofal a chefnogaeth rydych chi ei angen a sut y byddwch yn cael eich cefnogi.



Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda chi i ysgrifennu eich cynllun gofal a chefnogaeth.



Mae ffrind, aelod o'r teulu neu eiriolydd yn gallu eich helpu.



Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol gael eiriolydd i chi os ydych eisiau un.



Mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda gwasanaethau eraill fel iechyd neu weithwyr arbennig eraill pan maen nhw'n ysgrifennu eich cynllun.



Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ddweud beth ydy enw'r person fydd yn ysgrifennu ac yn edrych ar eich cynllun wrthych chi. Mae'r person yma'n cael ei alw yn **Cydgysylltydd Cynllun Cefnogi**.



Rydych chi'n gallu dewis lle mae'r cynllun yn cael ei ysgrifennu. Efallai eich bod eisiau iddo gael ei ysgrifennu yn eich cartref chi.




Fe ddylech chi gael copi o'ch cynllun mewn ffordd rydych chi'n ei ddeall. Er enghraifft yn hawdd ei ddeall.




Rydych yn gallu dewis yr iaith y mae eich cynllun yn cael ei ysgrifennu. Efallai eich bod eisiau eich cynllun yn Gymraeg.




Fe ddylech chi gael dewis o gael taliad uniongyrchol i dalu am eich gofal a'ch cefnogaeth.



Dydyn nhw **ddim** yn gallu gwrthod rhoi taliad uniongyrchol i chi dim ond oherwydd eich bod yn poeni am ei reoli. **Rhaid** i'r gwasanaethau cymdeithasol eich cefnogi chi i reoli eich taliad uniongyrchol.

Rhaid i’ch **Cynllun Gofal a Chefnogaeth** gynnwys:



- Y canlyniadau personol rydych chi wedi cytuno arnyn nhw yn eich asesiad.



- Beth mae angen i’r gwasanaethau cymdeithasol ei wneud i chi.



- Beth mae angen i eraill ei wneud i chi.




- Pa anghenion fydd yn cael eu hateb drwy ofal a chefnogaeth.



- Sut y byddan nhw yn gweld eich bod yn cyrraedd eich canlyniadau personol.




- Fe fyddan nhw’n edrych ar ddyddiad y cynllun. Mae angen edrych eto ar y cynllun o fewn 1 blwyddyn.



- Beth ydy costau eich gofal a'ch chefnogaeth. A phwy fydd yn eu talu.



- Yr anghenion a fydd yn cael eu hateb drwy daliadau uniongyrchol os ydych chi yn eu cael nhw.



Efallai y byddwch eisiau meddwl am ddefnyddio **technoleg wedi'i bersonoli** i'ch helpu i gyrraedd eich canlyniadau personol.



**Technoleg wedi'i bersonoli** ydy unrhyw offer neu dechnoleg sydd yn eich helpu i fyw eich bywyd yn fwy annibynnol. Er enghraifft, offer i'ch codi o'r gwely neu gyfrifiadur i'ch helpu i siarad.



Fe fydd eich **Cynllun Gofal a Chefnogaeth** yn dweud sut i weld pa mor dda rydych chi'n ei wneud ar gyrraedd eich canlyniadau personol. Fe fyddan nhw'n gofyn i chi sut fydd bywyd os ydych yn gwneud y pethau sydd yn bwysig i chi.




Fe fydd eich **Cydgysylltydd Gofal a Chefnogaeth** yn sgorio pa mor dda rydych yn gwneud. Mae angen i'r sgorio fod yn hawdd ei ddeall.




Fe fyddan nhw'n rhoi sgôr o rhwng 0 a 10 i bob canlyniad personol. Fe fyddan nhw'n gofyn i chi am eich sgoriau. 0 ydy'r un mwyaf gwael. 10 ydy'r un gorau.




Fe fydd y rhesymau dros y sgoriau yn cael eu hysgrifennu i lawr.



Os **nad** ydych chi yn gallu cymryd rhan yn y sgorio, mae angen i chi, aelod o'ch teulu neu eiriolydd a'r **Cydgysylltydd Gofal a Chefnogaeth** gytuno ar ffordd arall.



Os nad ydych eisiau cymryd rhan yn eich sgorio, fe fydd angen i'ch **Cydgysylltdd Gofal a Chefnogaeth** ysgrifennu eich rhesymau i lawr.




Mae'n iawn newid eich meddwl am y pethau sydd yn bwysig i chi, ond mae angen i chi ddweud wrth bobl. Rhaid ysgrifennu unrhyw newidiadau a'u hychwanegu at eich cynllun mor fuan ag sydd yn bosibl.

# Edrych ar eich Cynllun Gofal a Chefnogaeth





Rhaid edrych ar eich **Cynllun Gofal a Chefnogaeth** o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn yn cael ei alw yn adolygiad.




Rhaid i chi gael gwybod pa ddyddiad mae eich cynllun yn cael ei edrych arno.



Mae gwybod pryd mae eich cynllun yn cael ei edrych arno yn rhoi amser i chi feddwl am beth rydych chi eisiau ei ddweud am beth rydych chi wedi bod yn ei wneud. Ac fe fydd gennych amser i weithio allan pa newidiadau rydych eisiau eu gwneud. Neu beth rydych eisiau ei wneud nesaf.



Mae gennych hawl i gymryd rhan mewn edrych ar eich cynllun fel partner cyfartal.



Mae gennych hawl i gael eiriolydd, ffrind, aelod o'r teulu neu ofalwr i'ch helpu chi i edrych ar y cynllun.



Efallai y bydd gweithwyr arbennig eraill fel gweithwyr iechyd hefyd yn cymryd rhan mewn edrych ar eich cynllun.

Fe fyddan nhw'n gofyn:



- beth rydych chi wedi bod yn ei wneud




- beth wnaeth weithio'n dda i chi



- oedd yna unrhyw beth wnaeth **ddim** gweithio yn dda i chi.

Fe fyddan nhw yn edrych ar:



- pa mor dda rydych chi'n ei wneud ar gyrraedd eich canlyniadau personol



- pa newidiadau sydd angen eu gwneud




- sut mae'r cynllun yn ateb eich anghenion



- pa gefnogaeth sydd ei angen yn y dyfodol.




Mae hyn yn helpu i weld os ydy'r cynllun yn dal yn iawn i chi ac os oes angen gwneud newidiadau.




Os ydy eich amgylchiadau personol yn newid, fe ddylai eich cynllun gofal newid. A rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol wneud asesiad arall.

# Talu am eich gofal a'ch cefnogaeth



Mae awdurdodau lleol yn gallu codi tâl am y gofal a'r gefnogaeth y mae person yn ei gael.



I benderfynu faint o arian i'w godi rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol wneud **asesiad ariannol**.




Os oes tâl am eich gofal a'ch cefnogaeth fe fyddan nhw'n dweud wrthych chi faint ydy e.



Rydych chi'n gallu gofyn i'ch awdurdod lleol edrych ar unrhyw daliadau os ydych chi'n meddwl ei fod yn anghywir.



Rydych yn gallu gofyn am unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn gallu eu hawlio. Rhaid i'ch awdurdod lleol roi'r wybodaeth i chi am sut i wneud hyn.

# Beth arall sydd yn gallu eich helpu?




I helpu i gynllunio eich bywyd a pha ofal a chefnogaeth rydych chi ei angen efallai y byddwch yn hoffi defnyddio **Cynllunio wedi'i Ganoli ar yr Unigolyn**. Mae hyn yn eich rhoi chi yng nghanol eich cynllunio ac yn eich helpu i edrych ar beth rydych wedi bod yn ei wneud a pha mor bell rydych chi wedi dod.

## Rhagor o wybodaeth

Fideos defnyddiol:



- Mae gofal a chymorth yn newid yng Nghymru

https://www.youtube.com/watch?v=W21FSuOSU1k&index=5&list=PLHBVoCVw4XZRCfwJkpSmVyh8hD7-u47FD




- Y sedd yrru 2016 (Saesneg yn unig)

https://www.youtube.com/watch?v=HHNc5ZhpCG0&list=PLHBVoCVw4XZRCfwJkpSmVyh8hD7-u47FD&index=5



- Stori Granville – Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig (Saesneg yn unig)


https://www.youtube.com/watch?v=uo5RszCVkvY&list=PLHBVoCVw4XZRCfwJkpSmVyh8hD7-u47FD&index=6

Dogfennau a gwefannau defnyddiol:




- Datganiad Llesiant Hawdd ei Ddeall

https://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=cy





- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Hawdd ei Ddeall

https://gov.wales/docs/dhss/publications/141117acteasycy.pdf



- Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth

https://gov.wales/docs/dhss/publications/160610frameworkcy.pdf



- www.helensandersonassociates.co.uk (Saesneg yn unig)

# Geiriau anodd

## Amgylchiadau personol

Amgylchiadau personol ydy ffeithiau am eich bywyd sydd yn gwneud pethau fel maen nhw.

## Asesiad

Asesiad ydy pan mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill fel iechyd yn siarad gyda chi ac yn edrych ar sut mae modd ateb eich anghenion gofal a chefnogaeth.

## Asesu a chynllunio gofal

Asesu a chynllunio gofal ydy'r broses y mae eich awdurdod lleol yn ei ddefnyddio i weld os ydych angen gofal a chefnogaeth. Pa ofal a chefnogaeth rydych chi ei angen. A sut y byddwch yn ei gael.

## Awdurdod lleol

Yr awdurdod lleol ydy eich cyngor. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd, goleuadau a chasglu sbwriel.

## Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu neu yn eich trin yn ddrwg.

## Canlyniadau personol

Canlyniadau personol ydy beth sydd yn bwysig i chi a beth rydych eisiau ei wneud gyda'ch bywyd.

## Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bod gennych hawl i gael cefnogaeth oherwydd eich bod yn ateb yr holl gwestiynau.

### Eiriolydd
Eiriolydd ydy rhywun sydd yn siarad ar eich rhan i'ch helpu i ddweud beth rydych eisiau ei ddweud ac i gael eich anghenion wedi eu hateb.

### Esgeulustod
Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn neu yn eich cadw yn ddiogel.

### Galluedd
Galluedd ydy pan mae rhywun yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Os nad oes gan rhywun y galluedd, mae'n meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud rhai, neu'r cyfan o'u penderfyniadau eu hunain.

### Llesiant
Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n wneud.

### Taliad uniongyrchol
Taliad uniongyrchol ydy arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych yn gallu ei ddefnyddio i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.

### Technoleg wedi'i bersonoli
Technoleg wedi'i bersonoli ydy unrhyw offer neu dechnoleg sydd yn eich helpu i fyw eich bywyd yn fwy annibynnol. Er enghrafft, offer i'ch codi o'r gwely neu gyfrifiadur i'ch helpu i siarad.